



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Llangybi
Llangybi
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6DQ**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Llanybi

Mae Ysgol Gynradd Llanybi ym mhentref Llanybi sydd rhyw bum milltir o Bwllheli yng Ngwynedd ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos.

Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae 38 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 2 yn y dosbarth meithrin. Fe'i rhennir yn ddau ddsbarth oedran cymysg.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 17%, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol. Mae tua 78% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 18% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn mis Medi 1993, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae holl aelodau staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd o waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlr ar gyflawniad a lles disgyblion ac yn creu ethos cartrefol a chymuned ddysgu drefnus. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae bron pob disgybl yn dangos lefel uchel o barch ac yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais ac yn meithrin perthnasoedd cryf gydag aelodau staff ac yn groesawgar ac yn foengar i ymwelwyr. Mae gan bron pob disgybl ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddatblygu medrau rhifedd a defnyddio taenlenni a cronfeydd data yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, eu llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi ac yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau addas wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder ac ystyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft am Nant Gwrtheyrn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol. Maent yn ysgrifennu darnau diddorol, er enghraifft am eu gwyliau a phortread o ffrind.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu ac atalnodi'n gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori Gelert y ci a chwedl y Brenin Arthur. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn daclus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu medrau da o fesur, amser a phwyso. Ym Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf â dealltwriaeth dda o batrymau rhif a gwerth lle. Maent yn adio ac yn tynnu'n fedrus gan ddefnyddio degau ac unedau, ac yn dyblu neu'n haneru rhifau yn gywir. Maent yn datrys problemau geiriol syml yn fedrus wrth ddewis beth i'w brynu o'r siop bopty. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer â dealltwriaeth gadarn o luosi a gwerth lle ac yn cyflwyno data yn gynyddol gywir mewn graffiau neu dablau. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif am 'Barlwr Pitsa Pedr'. Maent yn deall y berthynas rhwng ffracsïynau, degolion a chanrannau yn dda.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn creu lluniau electronig da, ac yn cyflwyno data, er enghraifft i greu graffiau i ddangos lliw llygaid gwahanol ddisgyblion yn y dosbarth. Defnyddiant lechi electronig yn hyderus i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd, a chadw cofnod o'u gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am anifeiliaid y môr a masnach deg. Fodd bynnag, nid yw y disgyblion yn dadansoddi taenlenni a chronfeydd data yn ddigon cyson mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn dangos lefel uchel o barch ac yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn groesawgar ac yn foesgar i ymwelwyr ac yn barod i rannu eu profiadau am yr ysgol a'r gymuned. Mae hon yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch teuluol sy'n bodoli. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae rhan yn eu cymuned, er enghraifft y gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn y capel.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais ac yn meithrin perthynas gref ag aelodau staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn frwdfrydig. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn cyfrannu'n llawn wrth geisio sicrhau bod eu cyfoedion yn hapus a bod eu safbwyntiau a'u syniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau a deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r pwyllgor eco yn weithgar wrth hybu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae posteri arbed ynni yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol. Maent hefyd yn helpu cyd-ddisgyblion i ystyried pwysigrwydd tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol er mwyn hybu bwyta'n iach. Trwy elw gwerthiant y siop ffrwythau, mae'r cyngor ysgol wedi llwyddo i brynu rhagor o offer defnyddiol i'w cyd-ddisgyblion, er enghraifft y gegin fwd.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Maent yn deall peryglon a all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen. Mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan athrawon a staff yr ysgol berthynas arbennig â'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn rhoi cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol.

Mae'r safonau addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol ac fe adlewyrchir hyn yn y deilliannau da a gyflawnir. Mae'r drefn o gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu yn nodwedd gref. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymgorffori gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn briodol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn gyda thasgau ffocws amlwg yn yr ardaloedd dysgu, sy'n gosod lefel briodol o her ar gyfer oedran a gallu'r disgyblion. Fe roddir cyfle da i'r disgyblion ar draws yr ysgol ddylanwadu ar y cynllunio drwy greu map meddwl ar ddechrau eu themâu. Mae hyn yn ysgogi'r disgyblion yn dda i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Mae athrawon wedi ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd yn llwyddiannus yn y cynllunio, gan ddarparu tasgau cyson i atgyfnerthu'r medrau hyn.

Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau rhifedd a defnyddio taenlenni a cronfeydd data yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod gwersi. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae darpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal a diwylliant Cymru. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliadau i Blas Tan y Bwlch a Ffynnon Cybi.

Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol. Maent yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu ac yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n meithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy'r cwricwlwm, arferion dyddiol, amser cylch a chyd-addoli, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o werthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch a chydaddoldeb yn effeithiol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r agweddau hyn. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol fel Pont y Merched a Garn Bentyrch. Mae hyn yn hyrwyddo eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac maent yn ymateb yn sensitif i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae ethos yr ysgol yn un o amgylchedd agored lle caiff disgyblion eu hannog i drafod unrhyw broblemau gyda staff. Ceir darpariaeth addas i sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft wrth ddefnyddio'r rhyngwyd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni ac mae wedi sefydlu llinellau cyfathrebu effeithiol i'w hysbysu'n rheolaidd am waith yr ysgol. Mae hyn yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn adnabod unigolion a'r cynnydd maent yn ei wneud yn dda. Mae'r defnydd o brosesau monitro ac olrhain ffurfiol ac anffurfiol yn galluogi staff i fesur cynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol ar waith, ac mae cymorthyddion dysgu yn eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig tuag at gyflawni'r targedau unigol a osodir ar eu cyfer.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar annog y dysgwyr i gyrraedd safonau da. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwmo i arwyddair yr ysgol, sef 'Plant yn gyntaf'. Mae holl aelodau staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlr ar gyflawniad a lles disgyblion ac mae'n sicrhau ethos cartrefol a chymuned ddysgu drefnus.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle ac yn cynnwys targedau perthnasol i'r staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y profiadau gwerthfawr sy'n cael eu darparu i'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfleoedd addas i staff elwa o weithgareddau dysgu proffesiynol. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith effeithiol gydag ysgolion eraill tebyg ac wedi elwa'n fawr mewn meysydd fel asesu ar gyfer dysgu a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol o'r cwricwlwm ac maent yn cynnal teithiau dysgu buddiol sy'n canolbwyntio'n dda ar waith y disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Mae'r adroddiad hunanwerthuso yn rhoi darlun perthnasol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw pellach. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol wedi'u cysylltu'n briodol â deilliannau'r gweithdrefnau hunanwerthuso ac yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant a chyllid yn ddarbodus i sicrhau'r defnydd gorau ohono i gynnal a gwella safonau. Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir, ac yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion disgyblion.

Adroddiad ar Ysgol Llangybi
Rhagfyr 2018

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion penodol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2019